PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

# GWRANDO AR BLANT CYN OED YSGOL

## SUT GALLWN NI WRANDO?

*Mae gan bob plentyn hawl i'w lleisiau gael eu clywed a'u gwrando – Erthygl 12, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn*

**Mae amryw o ddulliau gweithredu addysgeg sy'n cefnogi hawliau plant cyn oed ysgol ac yn dyfnhau dealltwriaeth y rhai sy'n rhoi gofal iddynt o "Lais y Plentyn".**

### Y Dull Mosaig

Gan weld plant fel 'arbenigwyr ar eu bywydau eu hunain', mae'r Dull Mosaig yn cynnig fframwaith creadigol ar gyfer gwrando ar safbwyntiau plant ifanc trwy sgwrsio, cerdded, gwneud ac adolygu ar y cyd. Clark a Moss (2011) (i)

### Mannau sy'n hwyluso cyfathrebu

Mae'r rhain yn canolbwyntio ar rôl yr amgylchedd o ran cefnogi siarad a gwrando a llesiant emosiynol. Caiff plant eu gweld fel ymchwilwyr, sylwebwyr, datblygwyr. Elizabeth Jarman (2009) (ii)

### Cynllunio yn y fan a'r lle (cyfleoedd dysgu digymell)

Arsylwi ac ymateb yn y fan a'r lle, gan ddal diddordeb a brwdfrydedd y plentyn.
-Anna Ephgrave (2018) (iii)

### Dull Reggio Emilia (iv)

Mae'n hyrwyddo methodoleg addysgu lle bydd oedolion yn siarad â'r plentyn, yn gwrando ar y plentyn ac yn arsylwi'r plentyn. Mae'n caniatáu i'r plant rannu eu meddyliau a'u syniadau gan ddefnyddio dulliau cyfathrebu gwahanol, megis ystumiau, tynnu lluniau, symudiadau, cerddoriaeth.

### Cynllunio-Gwneud-Adolygu (v)

Mae'r dilyniant hwn yn gyfle i'r plant feddwl am achos ac effaith, goresgyn problemau a gweithio gydag eraill. Maen nhw'n cyfrannu'n weithredol yn eu dysgu wrth gynllunio ac wrth adolygu.

### Dull Montessori (vi)

Dull addysgu a arweinir gan y plentyn sy'n rhoi plant mewn amgylchedd dysgu wedi'i baratoi lle maen nhw'n rhydd i ddewis y gweithgareddau maen nhw am eu gwneud.

## Mae pob dull gweithredu yn grymuso'r plant ac yn rhoi llais iddynt

Gall plant ifanc gael "llais" mewn amgylchedd sy'n gyfarwydd iddynt, ond byddan nhw hefyd yn gallu rhannu eu barn ar faterion cymdeithasol ehangach. Fodd bynnag, rhaid gwneud hyn mewn modd sensitif ac ystyrlon.

Mae'r fideo hwn yn dangos plant 3-4 oed yn cymryd rhan yn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ynghylch cyflwyno terfyn cyflymder o 20mya ger tai ac ysgolion.

Roedd y gweithgareddau a ddefnyddiwyd yn cynnwys; pleidleisio rhyngweithiol/ar sail lluniau; wynebau emosiwn ac arsylwi gweithgareddau chwarae rôl.

Mae ymchwil wedi dangos bod plant yn aml yn prosesu eu profiadau bywyd ac yn mynegi barn trwy chwarae. (Rogoff et al, 2018) (vii). Felly, mae creu lleoedd iddynt fynegi eu hunain ar bwnc trafod a chofnodi'r arsylwadau yn gallu cynnig persbectif/safbwynt ystyrlon a chynnig "llais" iddynt.

**Adnoddau Blynyddoedd Cynnar Sunshine AM**

**https://youtu.be/OZRBDXhX6UY**



***Sylwch: Y rhai sy'n rhoi gofal sy'n adnabod y plentyn orau; canllaw yw hyn – a dylid ei addasu a'i ddefnyddio i gefnogi pob plentyn unigol. I gael rhagor o wybodaeth ewch i www.childreninwales.org.uk/cy***

i Clark, Alison and Moss, Peter (2011). Listening To Young Children: The Mosaic Approach (2nd ed.). London: National Children's Bureau. ii the-cfs-approach-and-targeted-use-of-colour.pdf (elizabethjarman.com) iii Anna Ephgrave, 2018, planning in the Moment with young children: a practical guide for Early Years practitioners and parents, Paperback. iv Reggio Children - Reggio Emilia Approach v https://highscope.org/ vi Approach - Montessori (montessoriedu.org) vii Rogoff et al (2018), The importance of understanding children's lived experiences Developmental Review, Volume 50, Part A,2018,

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

**WWW.CHILDRENINWALES.ORG.UK/CY**